Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gyfun Aberaeron**
**Stryd Y Fro**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0DT**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Lowri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Anne Morris | Arolygydd Tîm |
| Delyth Lloyd Gray | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Heledd Thomas | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gyfun Aberaeron wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn cynrychioli'r perfformiad gorau erioed ar gyfer yr ysgol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn ac yn dangos cynnydd pellach ar y gwelliannau a welwyd yn 2015.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg, a mathemateg, mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad yr ysgol wedi codi 16.7 pwynt canran ers amser yr arolygiad craidd a 10.2 pwynt canran ers 2015. Mae'r perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd yn 2016 hefyd yn sylweddol uwch nag yn y ddwy flynedd flaenorol.

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ers yr arolygiad craidd.

Yn ôl data dros dro, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 wedi gwella 10.3 pwynt canran ers 2014. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 wedi gwella hefyd.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-A, mae perfformiad yr ysgol wedi dirywio ers yr arolygiad craidd.

Mae perfformiad Cymraeg ar lefel 2 wedi gwella 3.8 pwynt canran ers 2014 ond yn is nag oedd yn 2015. Mae perfformiad Saesneg ar lefel 2 wedi gwella 11.5 pwynt canran ers amser yr arolygiad craidd ond yn parhau'n is nag yn 2013.

Mewn mathemateg ar lefel 2, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella 11.5 pwynt canran ers yr arolygiad craidd yn 2014. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella 24.7 pwynt canran ers 2014 ac 13.9 pwynt canran ers 2015.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad bechgyn wedi gwella ym mron pob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad bechgyn wedi gwella'n sylweddol yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn y Gymraeg wedi dirywio. Mae perfformiad merched hefyd wedi gwella yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion, ond i raddau llai na'r bechgyn.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos cymhelliant cryf ac yn barod iawn i ddysgu ac i weithio. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gefnogol iawn o'i gilydd.

Mewn llawer o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol. Maent yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Maent hefyd yn cydweithio'n fuddiol mewn parau a grwpiau. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n rhugl ac yn estynedig ac yn defnyddio geiriau pynciol yn gywir ac yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu sylfaenol. Mewn gwersi perthnasol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llawer o strategaethau rhif yn addas mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, ychydig o ddisgyblion yn unig sydd yn gwneud cynnydd digonol ac yn cyrraedd safonau sydd yn briodol i'w hoedran a'u gallu.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwella a thynhau ei systemau olrhain cynnydd ac wedi cyflwyno trefn fanwl a defnyddiol. Mae trefniadau mwy cydlynus a chlir ar gyfer olrhain perfformiad a thargedu disgyblion yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae cydweithio gwerthfawr gydag ysgolion cynradd lleol wedi rhoi gwell dealltwriaeth i athrawon o safonau disgyblion yn y medrau cyn iddynt ddechrau Blwyddyn 7. Mae'r ysgol hefyd wedi darparu hyfforddiant buddiol er mwyn helpu athrawon i ddeall sut i wella medrau disgyblion. O ganlyniad, mae adrannau wedi diwygio eu cynlluniau gwaith yn effeithiol er mwyn rhoi mwy o sylw i lythrennedd a rhifedd. Mae lleiafrif o'r cynlluniau yn rhoi cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, mewn llawer o'r cynlluniau nid oes sylw digonol i wella uwch fedrau disgyblion.

Mae defnydd yr ysgol o ddata i olrhain cynnydd ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi gwella. Bellach, mae trefniadau cydlynus ar gyfer cefnogi disgyblion sydd â medrau gwan ac mae'r ysgol yn monitro a gwerthuso'r trefniadau hyn yn ofalus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o ddadansoddiadau diagnostig o brofion llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, maent yn adnabod anghenion disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn amserol. Mae ychydig o adrannau yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol i roi sylwadau ar rifedd neu lythrennedd wrth farcio. Yn yr esiamplau gorau, mae awgrymiadau defnyddiol i ddisgyblion ar sut y gallent wella eu huwch fedrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn ddigon cyson ar draws y pynciau.

Er y datblygiadau i wella darpariaeth llythrennedd a rhifedd, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar safonau disgyblion yn y medrau hyn.

**Argymhelliad 3: Datblygu’r ddarpariaeth er mwyn hyrwyddo’r Gymraeg yn fwy effeithiol**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi sefydlu strwythurau cadarn sydd wedi llwyddo i hyrwyddo’r Gymraeg yn fwy effeithiol. Mae’r ysgol wedi penodi swyddog i ganolbwyntio’n benodol ar hyrwyddo’r Gymraeg ac mae hyn wedi arwain at nifer o welliannau. Mae rhain yn cynnwys clwb poblogaidd ‘Cymraeg i Bawb’ i ddisgyblion, a chymorth buddiol i athrawon sydd yn ddi-hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg. Fodd bynnag, yn y gwersi cyfrwng Saesneg, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o’r Gymraeg i hybu dwyieithrwydd y disgyblion.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno trefniadau clir a phriodol ar gyfer grwpio disgyblion yn ôl cyfrwng iaith. O ganlyniad, mae niferoedd y disgyblion sydd yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu’n sylweddol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer y disgyblion sydd yn astudio pynciau arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu hefyd. Bellach, mae dros 80% o ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn astudio o leiaf tri phwnc arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, lleiafrif o bynciau yn unig y gall disgyblion eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhelliad 4: Gwella a chysoni ansawdd yr addysgu, a sicrhau bod digon o her i ddisgyblion mwy abl**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae arweinwyr wedi gweithredu’n effeithiol er mwyn gwella a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol ers amser yr arolygiad craidd.

Mae’r ysgol wedi cryfhau a miniogi ei harferion arsylwi gwersi a monitro gwaith disgyblion. Bellach, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn monitro gwersi a llyfrau yn rheolaidd ac mae prosesau buddiol i gysoni barnau. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr, a llawer o arweinwyr canol, ddealltwriaeth gadarn o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella o ran addysgu. Fodd bynnag, nid yw ansawdd arfarniadau gwersi a chraffu ar waith yn ddigon cyson ac, mewn ychydig o achosion, nid oes digon o ystyriaeth i’r cynnydd a’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi ehangu’r cyfleoedd i athrawon ddatblygu eu medrau addysgu. Mae’r ysgol wedi blaenoriaethu’n briodol ychydig o feysydd penodol i’w gwella ac wedi trefnu hyfforddiant pwrpasol ar y meysydd hynny. Bellach, mae cyfleoedd defnyddiol i athrawon rannu a dysgu oddi wrth arfer dda o fewn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Ceir cefnogaeth a hyfforddiant buddiol i athrawon sydd yn tanberfformio ac, o ganlyniad, mae perfformiad athrawon penodol wedi gwella.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn a pherthynas waith gynhyrchiol gyda’r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon

ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ac mae lefel yr her yn briodol. Maent yn cynllunio'n bwrpasol ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau defnyddiol. O ganlyniad, ceir dilyniant effeithiol o weithgareddau sydd yn adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd er mwyn sicrhau cynnydd. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn gwirio dealltwriaeth y disgyblion yn gyson. Mae athrawon, a chymorthyddion, yn rhoi cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion wrth gylchu'r dosbarth. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon penodol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Yn y gwersi hyn, nid oes pwrpas clir i bob gweithgaredd ac nid oes digon o ddefnydd o enghreifftio gwaith. Nid yw athrawon yn gwirio dealltwriaeth y disgyblion yn ddigon aml nac yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, ni wneir defnydd effeithiol o gwestiynu i brocio ac ymestyn ymatebion ac mae athrawon yn dueddol o ateb dros y disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn addas i allu'r disgyblion nac yn rhoi cyfarwyddiadau clir.

**Argymhelliad 5: Cryfhau rôl arweinwyr canol gan sicrhau eu bod yn llwyr atebol am safonau ac ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi cyflwyno strategaethau effeithiol i gryfhau rôl arweinwyr canol. Mae hyn wedi arwain at ddiwylliant cadarnhaol ymysg arweinwyr a dyhead cytûn i wella.

Mae'r ysgol wedi diffinio natur cyfrifoldebau arweinwyr a llinellau atebolrwydd yn glir. Mae'r drefn rheoli perfformiad wedi ei chryfhau ers mis Medi 2015 ac mae targedau i reolwyr canol yn finiog, gyda chyswllt cadarn â safonau'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae pob arweinydd canol wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ar eu rôl strategol a chanllawiau defnyddiol ar agweddau o arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o'u rolau a sut i'w gweithredu.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd cynyddol, mae'r uwch dîm arwain bellach yn monitro gwaith y rheolwyr canol yn fwy trylwyr. Er enghraifft, maent yn defnyddio canfyddiadau o graffu ar waith ac arsylwi gwersi i ddwyn rheolwyr canol i gyfrif yn fwy effeithiol. Yn ogystal, mae trefn reolaidd i gyfarfodydd rheoli llinell. Bellach, maent yn canolbwyntio'n briodol ar safonau, gosod targedau a dysgu ac addysgu ac mae dilyniant gwerthfawr i'r camau gweithredu a adnabyddir.

Mae mwy o gysondeb o ran ansawdd gwaith arfarnu a chynllunio yr arweinwyr canol o gymharu ag ar adeg yr arolygiad craidd. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth uniongyrchol i ddod i farn am safonau ac ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau. Mae cofnodion cyfarfodydd adrannol hefyd yn dangos bod rheolwyr canol yn canolbwyntio mwy ar faterion priodol megis addysgu a dysgu nag yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd y cofnodion hyn ac nid yw pwyntiau gweithredu bob amser yn glir.

Mae rôl arweinwyr cynnydd wedi datblygu'n werthfawr i gynnwys monitro cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar eu rôl wedi datblygu'n llawn.

**Argymhelliad 6: Cryfhau trylwyredd y prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol a lefel ysgol-gyfan**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2014, mae'r ysgol wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau trylwyredd y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, mae prosesau sicrhau ansawdd ysgol-gyfan yn gadarn ac yn gynhwysfawr a cheir gwell cysondeb ar lefel adrannol.

Mae'r ysgol wedi miniogi a chynyddu'r prosesau monitro a sicrhau ansawdd a bellach mae calendr hunanarfarnu trefnus sydd yn cynnwys gweithgareddau pwrpasol. Mae rôl arweinwyr yn y prosesau hyn yn glir a di-amwys. Mae'r drefn hon yn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn arfarnu safonau a darpariaeth yn gyson ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn amserol.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant pwrpasol a buddiol i arweinwyr ar hanfodion hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Bellach, mae dealltwriaeth yr holl arweinwyr o ddata perfformiad wedi cryfhau. Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o ddata yn fanwl ac yn gwneud cymariaethau defnyddiol o berfformiad yr ysgol yn erbyn ysgolion tebyg. O ganlyniad, mae arfarniad yr ysgol o safonau yn ddarlun mwy gonest a realistig nag ar amser yr arolygiad craidd.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu ysgol-gyfan yn ddogfen werthfawr sydd ar y cyfan yn arfarnol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar ganfyddiadau o'r prosesau hunanarfarnu ac ar argymhellion yr arolygiad craidd. Bellach, mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i werthuso cynnydd yn erbyn agweddau o'r cynllun hwn yn gyson.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol erbyn hyn yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ganlyniadau. Yn y mwyafrif o achosion, ceir arfarniad cywir wedi ei seilio ar ystod addas o dystiolaeth. Mae adolygiadau adrannol ar eu ffurf newydd yn darparu arfarniad manwl a buddiol o berfformiad adrannau unigol. Serch hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o dystiolaeth uniongyrchol o wersi a llyfrau er mwyn dod i farn am safonau a dysgu ac addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwella adrannol yn rhoi sylw teilwng i godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Maent hefyd yn adlewyrchu'n briodol flaenoriaethau ysgol-gyfan. Mae arweinwyr canol yn arfarnu cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn rheolaidd ac yn fanwl drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r ysgol yn canfod barn disgyblion a rhieni ar ychydig o faterion. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n gynhwysfawr. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella yr ysgol. Mae'r bwrdd gweithredu yn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd yn rheolaidd ac yn gosod her briodol i arweinwyr.

Mae gwelliannau yn y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cyfrannu'n bwysig at godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.